**Achub y Dyfodol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol:**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022**
**Lleoliad: Rhithwir**

**Siaradwyr**
Yr Athro EJ Renold – Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Carlene Firmin – Prifysgol Durham
Jayne Bryant AS

**Yn bresennol:**
David Hopkins – gwestai
Lowri Williams – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
Faith McCreday – Heddlu De Cymru
Rachel Williams – Stepping Stones Gogledd Cymru
Sara Evans – Gwasanaethau Troseddau, Heddlu Gogledd Cymru
Katie Ellis – Gwasanaethau Troseddau, Heddlu Gogledd Cymru
Nia Henman – Tîm Diogelu Corfforaethol y GIG
Mel Gadd – Cwmni Addysg Rhyw
Tom Lewis-White – Staff Comisiwn y Senedd
Gillian Jones – Sefydliad Lucy Faithful
Nici Evans – Canolfan CSA
Kate Rothwell – Adran Dysgu Digidol Llywodraeth Cymru
Helen Middleton - CAVC
Sarah Walton-Jones – Sefydliad Lucy Faithful
Daisy Williams – Sefydliad Lucy Faithful
Sarah Whitcombe Hayes - NSPCC Cymru
Philip Walker – Ymddiriedolaeth y Goroeswyr
Ross Walmsley – NSPCC Cymru
Sian Garstang - Tegwch mewn Addysg
Karen Bamford - Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol
Sarah Keefe - gwestai
Caryl M Davies – diogelu ysgolion, Caerfyrddin
Shannon Orritt – Staff Cymorth Aelod o'r Senedd
Nicola Giles – Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru
Elizabeth Flowers – Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Berni Durham-Jones – Stepping Stones Gogledd Cymru
Mandy Gibbs – Canolfan CSA Aml-asiantaeth
Hannah Evans-Price – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru
Cecile Gwilym – NSPCC Cymru
Brody Anderson – Staff Cymorth Aelod o'r Senedd
Claire Short – Sefydliad Lucy Faithful
Deborah Sargent – Adran Dysgu Digidol Llywodraeth Cymru
Eleri Griffiths – Staff Cymorth Aelod o'r Senedd
Joanna Williams – Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
M Matthews – Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant
Catrin Simpson – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Iechyd Plant
LInda Elias – Heddlu Dyfed Powys:
Sian Erickson – Diogelu
Fflur Emlyn – RASAC

**Ymddiheuriadau:**
Llyr Griffith AS
Peredur Owen Griffiths AS
Keli Evans - RASASC

**Cofnodion**

Gair o groeso a chyflwyniadau gan Jayne Bryant AS, gan gynnwys rhybudd y byddai pynciau anodd yn cael eu trafod ac y dylai'r rhai a oedd yn bresennol ofalu am eu hunain yn anad dim.

**Y prif bwyntiau a godwyd gan y siaradwyr**

**Yr Athro EJ Renold – Prifysgol Caerdydd "*Dydyn ni ddim yn dweud wrth yr athrawon": datgelu achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.***

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i faterion yn ymwneud ag aflonyddu rhwng cymheiriaid cyn i Estyn gyhoeddi ei adroddiad ar aflonyddu rhywiol mewn ysgolion uwchradd.
- Mudiad ar y cyd/ar-lein, gan gynnwys 'Gwefan Everyone's Invited' sbardunodd Estyn i archwilio'r mater hwn.
- Mae aflonyddu rhywiol wedi'i normaleiddio mewn ysgolion – mae digwyddiadau mor gyffredin – ac yn ôl y sôn, gall athrawon normaleiddio digwyddiadau o'r fath neu eu trin yn ysgafn ac felly, ni fydd pobl ifanc yn dweud wrth neb.
- Rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn mewn ysgolion cynradd hefyd
- Mae gan Gymru y potensial i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gyfannol – gyda phwyslais ar hawliau plant
- Mae'n hanfodol bod dysgu proffesiynol yn ganolog i'r gwaith o fynd i'r afael ag aflonyddu mewn ysgolion

**Yr Athro Carlene Firmin MBE, Prifysgol Durham *'Datblygu dulliau diogelu cyd-destunol at gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru'***

- Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng ble mae plant yn cael eu cam-drin a phwyslais gwaith cymdeithasol - yn draddodiadol, mae wedi canolbwyntio ar gynnal asesiad o'r teulu, yn hytrach na'r cyd-destun.
- Mae angen i ni ddatblygu partneriaethau gyda sectorau/unigolion sy'n gyfrifol am bobl ifanc a chydweithio â phobl ifanc, gan sicrhau bod y gwaith yn seiliedig ar gryfderau.
- Gall targedu'r plentyn/teulu unigol a'i symud ymlaen greu 'ymdeimlad o wactod mewn dioddefwyr' gan nad yw'r cyd-destun sy'n achosi'r niwed yn cael ei herio.
- Ar hyn o bryd, mae pedair ardal yng Nghymru yn addasu'r model diogelu cyd-destunol – mae Abertawe yn safle prawf diogelu cyd-destunol ffurfiol. Mae Casnewydd, Caerdydd, a Chastell-nedd Port Talbot yn gweithredu safleoedd prawf cyfatebol – rhwydwaith hyrwyddwyr cynlluniedig ledled Cymru.
- Mae cyfrifoldeb ar bawb i weithio ar y cyd i ddiogelu plant, nid dim ond eu cyfeirio at wasanaethau diogelu.
- 'Pwysoli'r cyd-destun' – mae'n bwysig ystyried y cyd-destun mwyaf arwyddocaol sy'n creu'r bygythiad mwyaf i'r plentyn. Er enghraifft.
  - Mapio gweithgareddau o amgylch safle'r ysgol
  - Asesu grŵp o gyfoedion a meithrin gallu'r ysgol i ddiogelu disgyblion
  - Rhoi newidiadau ar waith dan arweiniad yr ysgol, ee agweddau staff a mapio diogelwch

**Trafodaeth o'r llawr**

Mae angen buddsoddi mewn dysgu proffesiynol os nad yw plant yn teimlo'n ddiogel, a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru sydd ei angen i fynd i'r afael â hyn.

Dywedodd Jayne Bryant wrth ei chydweithwyr fod ymchwiliad presennol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn canolbwyntio ar aflonyddu rhwng cymheiriaid https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38554

Rhoddodd Nicola Giles o Lywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau yn dilyn adroddiad Estyn – mae cynlluniau cynnar yn cynnwys ymateb aml-asiantaeth, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch hyn. Mae'r cynllun yn debygol o gynnwys:

- Pwyslais ar atal achosion o aflonyddu
- Y cwricwlwm newydd
- Gweithredu fel ysgol gyfan

Awgrymodd EJ fod yn rhaid i ddiogelu cyd-destunol fod yn ganolog i gynllun gweithredu newydd a rhaid i hyn fod yn ganolog i'r cwricwlwm newydd.

**Camau i'w cymryd**

- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Grŵp Trawsbleidiol
- Datblygu papur briffio ar ôl cael barn pobl ifanc
- Trefnu grwpiau trafod i ddod o hyd i atebion, ar sail y papur briffio, sy'n ystyried:
    - Dysgu proffesiynol
    - ACRh
    - Pam nad yw pobl ifanc yn rhoi gwybod i athrawon am yr hyn sy'n digwydd
    - Y cyd-destun yn yr ysgolion - pwysoli'r cyd-destun
    - Niwed ar-lein
    - Y gorgyffwrdd rhwng cynlluniau gweithredu/strategaethau perthnasol (CSA, VAWDASV, gwrth-hiliaeth, LGBTQ+)

Diolchodd Jayne i bawb am eu presenoldeb a daeth â'r cyfarfod i ben.